Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

GREENER UK

Healthy Air Awyr Iach Cymru

Datganiad i'r wasg

Mehefin 2022

Elusennau blaengar iechyd ac amgylcheddol yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn deddfu i warchod natur

Mae dros 30 o sefydliadau iechyd ac amgylcheddol blaenllaw yng Nghymru, wedi ysgrifennu llythyr agored at y Prif Weinidog, Mark Drakeford yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu targedau statudol ar gyfer adferiad byd natur, yn ogystal â chorff annibynnol i ddwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif ar eu ymrwymiadau amgylcheddol.

Mae'r llythyr yn tynnu sylw at yr argyfyngau natur ac iechyd cyhoeddus sy'n wynebu Cymru, ac yn galw am weithredoedd uchelgeisiol gan y llywodraeth i greu amgylchedd iach i natur a phobl i ffynnu ynddo.

Mae un o bob chwech o rywogaethau mewn perygl o gael eu colli o Gymru, a dim ond cyfran fach iawn o'r safleoedd natur gorau ar y tir ac ar y môr sydd mewn cyflwr da. Ni ellir anwybyddu aer gwenwynig, gyda dros 1600 o bobl yn marw yn gynnar yng Nghymru bob blwyddyn oherwydd llygredd aer.

Cymru yw'r wlad olaf yn y DU i sefydlu corff annibynnol newydd i oruchwylio deddfau amgylcheddol. Mae'r oedi parhaus hwn i gyflwyno deddfwriaeth i warchod a gwella amgylchedd Cymru yn tanseilio hawl pobl i gyfiawnder amgylcheddol ac yn lleihau enw da Llywodraeth Cymru fel arweinydd byd ym maes datblygu cynaliadwy.

Dywedodd Annie Smith, Cadeirydd Gweithgor Bioamrywiaeth Cyswllt Amgylchedd Cymru:

"Rydym yng nghanol argyfwng byd natur a hinsawdd – ac fel un o'r gwledydd mwyaf disbyddedig o ran natur yn y byd, ni all Cymru fforddio bod ar ei hôl hi o ran materion diogelu'r amgylchedd. Natur yw ein system cynnal bywyd. Mae arnom angen deddfau newydd i ysgogi ei hadferiad er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, a chorff gwarchod annibynnol i ddwyn y llywodraeth i gyfrif.

Dywedodd Joseph Carter, Cadeirydd Awyr Iach Cymru:

"Mae dros 1600 o bobl yn marw yn gynnar o achos llygredd aer bob blwyddyn yng Nghymru, mae'n gwaethygu cyflwr yr ysgyfaint ac yn creu achosion newydd. Mae aer gwenwynig yn effeithio ar y cymunedau tlotaf a mwyaf agored i niwed. Yn union fel na ddylai neb orfod yfed dŵr brwnt, ni ddylai neb gael eu gorfodi i anadlu aer llygredig. Mae'n amser i ni symud at weithredu, a mae hyn yn gofyn

am arweinyddiaeth. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd drwy ymgorffori deddfau amgylcheddol i lanhau ein haer, ein dŵr ac adfer natur.”

Supported by all WEL members



Wales Environment Link (WEL) is a network of environmental, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales. WEL is a respected intermediary body connecting the government and the environmental NGO sector. Our vision is a thriving Welsh environment for future generations.

Swyddfa Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675